

# Gwarchodfa Natur Lôn Cob Bach

## Nod Llesiant

## Ffyrdd o weithio

Mae Lôn Cob Bach wedi'i lleoli yng nghanol tref hanesyddol Pwllheli ac mae'n rhan o warchodfeydd Natur Gwynedd, sy'n ymestyn dros 1,700 hectar o dir.

Mae Pwllheli ar ben deheuol Penrhyn Llŷn, gyda marina prysur a thraethau sy'n boblogaidd gyda thwristiaid drwy gydol yr haf.
Ffurfiwyd Gwarchodfa Natur Lon Cob Bach o ganlyniad i ddraenio rhannau helaeth o afon Rhydhir pan adeiladwyd arglawdd y Cob yn y 18fed ganrif. Ehangodd y dref i orchuddio llawer o'r tir a adenillwyd, gan adael porfa wlyb a morfa heli. Mae'r llaid rhynglanw a'r gwelyau hesg, yn gynefin pwysig i nifer o rywogaethau sydd wedi'u gwarchod, fel dyfrgwn a glas y dorlan.

Mae gan faes parcio'r warchodfa natur ddarn segur sydd wedi cael ei defnyddio yn y gorffennol ar gyfer tipio anghyfreithlon, ymddygiad gwrthgymdeithasol a delio cyffuriau, gydag ymddygiad tebyg hefyd wedi cael ei weld yn yr isdyfiant trwchus ar draws y safle. Fel rhan o'n gwaith ar y cynllun Coetiroedd Cymunedol, roeddem ni'n gallu cynorthwyo gyda'r gwaith o adfer y safle, a gafodd ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.


Y dyheadau ar gyfer y prosiect hwn oedd gwella iechyd y coetir presennol, creu darn o goetir newydd a gwella diogelwch y llwybr poblogaidd sy'n cael ei ddefnyddio gan ddisgyblion yr ysgolion cynradd ac uwchradd lleol.

Cafodd y seiliau caled eu tynnu o'r maes parcio segur ac ymgymerwyd â gwaith paratoi'r tir i greu safle addas ar gyfer y meicro-goetir newydd 750 metr sgwâr. Plannwyd y darn yma o dir gyda 200 o goed o gymysgedd o rywogaethau, gan gynnwys masarn, gwern, bedw, afal, cyll, ceirios a derw. Bydd y cynefin newydd hwn yn cynnal iechyd y warchodfa bresennol drwy gynyddu bioamrywiaeth y planhigion i gefnogi bioamrywiaeth yr anifeiliaid.

Cafodd gwaith clirio ychwanegol ei wneud yn y coetir presennol i glirio'r isdyfiant trwchus, gan leihau'r cyfleoedd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, a rhoi mwy o gyfle i'r rhywogaethau planhigion lleol adfywio'n naturiol.

> "Hoffem ni weld rhagor o brosiectau, tebyg i hwn, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth."

Geiriau allweddol: Coetiroedd Cymunedol, prosiectau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, rheoli ac adfer coetiroedd, mannau gwyrdd hygyrch, ymgysylltu â'r gymuned, ymgysylltu â phobl ifanc, cenedlaethau'r dyfodol, partneriaethau, effaith gynaliadwy




Gwahoddwyd yr ysgolion lleol i gymryd rhan yn y gwaith o greu ac adfer y coetiroedd er mwyn darparu cyfleoedd dysgu, rhoi ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth i'r disgyblion a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fe wnaeth y plant fynegi eu cyffro am y profiadau a'r posibilrwydd o gasglu ffrwythau yn y dyfodol.



Gwahoddwyd grŵp lleol o wirfoddolwyr, Ffrindia Dre, hefyd i gymryd rhan yn y gwaith a'r digwyddiad cymunedol, gan blannu coed seremonïol gyda'r Maer yn bresennol. Fe wnaeth y grŵp fynegi eu gwerthfawrogiad o'r prosiect am ei werth lleol a'i gyfraniad at y gwaith o fynd i'r afael â'r newid ehangach yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.







> "Rydw i'n edrych ymlaen at gael ffrwythau o'r coed a mynd â nhw i dŷ fy Nain."



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund